**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Bwlio - Papur gan NSPCC Cymru**

## Cyflwyniad

Er gwaethaf cynlluniau'r llywodraeth ac ymdrechion llawer o athrawon ac ysgolion, mae bwlio'n dal i fod yn broblem ddifrifol i lawer o blant. Dangosodd astudiaeth a wnaed gan Brifysgol Sheffield yn 1994 fod deg y cant o blant cynradd a phedwar y cant o'r rheiny mewn ysgolion uwchradd ym Mhrydain yn cael eu bwlio unwaith yr wythnos – sef 350,000 o bobl ifanc 8-10 oed, a 100,000 o ddisgyblion ysgolion uwchradd ledled y wlad.

Mae llawer wedi ei ysgrifennu am effeithiau bwlio ar blant a phobl ifanc. Yn 1994, adroddodd yr Adran Addysg;

> *"Caiff llawer o ddisgyblion eu bwlio ar ryw raddfa neu'i gilydd. Nid yw'r ffaith na hysbyswyd staff am ddigwyddiadau yn golygu nad ydynt yn digwydd. Gall bwlio neu fathau eraill o blagio beri bod disgyblion yn cael bywydau anhapus, gall amharu ar eu datblygiad academaidd, a gall weithiau wthio plant a fuasai fel arall yn gydwybodol i chwarae triwant."*
> Yr Adran Addysg (Cylchlythyr 8/94)

Gwyddom y gall y niwed emosiynol a wneir i'r sawl sy'n dioddef bwlio bara am amser maith. Nid mor aml y cydnabyddir y gwneir niwed hirdymor hefyd i'r sawl sy'n bwlio. Mae ymchwil wedi dechrau awgrymu, oni ddysgir patrymau ymddygiad newydd a'u mabwysiadu, y gall y bwli barhau i fwlio drwy gydol ei oes, gyda chanlyniadau niweidiol i'w iechyd a'i les meddyliol ac i'w berthynas ag eraill.

Pan fydd ysgol yn gallu mynd i'r afael yn effeithiol â phroblem bwlio, felly, ceir manteision clir yn y tymor byr a hir i unigolion, ac i amgylchedd yr ysgol gyfan a holl aelodau cymuned yr ysgol.

## Egwyddorion Sylfaenol

Mae'r NSPCC wedi mabwysiadu'n ffurfiol Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dyma werthoedd craidd a arddelir gennym:

- Mae gan bob plentyn hawl i'w gwarchod rhag pob math ar drais ac ymelwad, i'w gwarchod eu hunain ac i ddisgwyl y bydd pobl yn eu gwarchod ac yn eu helpu.

- Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg.

Credwn fod bodolaeth bwlio yn gweithio yn erbyn yr hawliau hyn. Credwn y dylai fod gan bob ysgol bolisïau ymddygiad clir, gyda chefnogaeth a goruchwyliaeth dda, ac y dylid cefnogi staff yn eu cyfrifoldeb dros atal bwlio ac annog perthynas dda rhwng pawb drwy'r ysgol gyfan, fel y bydd disgyblion yn dysgu trin ei gilydd â pharch a sylweddoli fod bwlio'n gwbl annerbyniol.

## Effaith Strategaethau Gwrth-fwlio

Yn ôl profiad ysgolion lle’r ymdrinnir yn effeithiol â bwlio, dyma rai o’r manteision y gallai ysgolion ddisgwyl eu gweld:

**Effaith Gadarnhaol ar Ddisgyblion** – Caiff disgyblion a gafodd eu bwlio gefnogaeth eu cyd-ddisgyblion yn hytrach na chael eu gwrthod neu eu hesgymuno. Bydd disgyblion sy’n gweld ymddygiad difrïol (ac sy’n gallu ei adnabod) yn dysgu cydymdeimlo â’r dioddefwr ac ymyrryd, naill ai’n uniongyrchol neu drwy alw ar eraill. Golyga hyn fod disgyblion trafferthus dros amser yn colli cydweithrediad tawel eu cyfoedion ac y gorfodir iddynt newid y ffordd y maent yn ymwneud ag eraill.

**Amgylchedd Dysgu** – Pan fydd plant yn gwybod fod gan eu hysgol ymroddiad gweithredol i greu amgylchedd ysgol diogel lle na oddefir bwlio, gallant roi mwy o’u sylw i ddysgu nag i gadw’n ddiogel.

**Amgylchedd yr Ysgol Gyfan** – Caiff amgylchedd yr ysgol gyfan ac enw da’r ysgol hefyd eu gwella os yw’n hysbys y caiff pob aelod o gymuned yr ysgol ei werthfawrogi a’i dderbyn am yr hyn ydyw, a cheir mwy a mwy o bendantrwydd a chydweithrediad yn y berthynas rhwng disgyblion a’i gilydd.

## Ymyriadau Llwyddiannus

Mewn ymchwil a wnaed gan yr Adran Addysg yn 1994 astudiwyd effaith amrediad o gynlluniau gwrth-fwlio mewn 24 o ysgolion. (Sharp, Smith 1994). Canfu eu hymchwiliadau ostyngiadau o hyd at 80% mewn ymddygiad bwlio. Enwyd y canlynol fel yr elfennau allweddol i ymyriadau gwrth-fwlio llwyddiannus:

- “Roedd cydberthynas uniongyrchol rhwng yr amser a dreuliwyd ac ansawdd yr ymdrech a wnaed i ddatblygu polisi ysgol-gyfan a’r lleihad yn lefelau bwlio.”
- “ … roedd y broses o ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o’r broblem cyn bwysiced ag unrhyw ffactor arall.”
- “Roedd prosiectau cwricwlwm yn ddefnyddiol o ran codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo trafodaeth, ond nid oeddent yn bwysig ar eu pen eu hunain.”
- “Mewn ysgolion a fabwysiadodd amrediad eang o strategaethau gwelwyd cynnydd amlwg ym mharodrwydd dioddefwyr i ‘ddweud’. Llwyddiant mawr yn llygaid yr ysgolion oedd creu’r ‘amgylchedd dweud’ hwn.”
- “Roedd gwaith gydag unigolion, yn ddioddefwyr ac yn fwlis fel ei gilydd, yn llwyddiannus, ond roedd angen hyfforddiant a chefnogaeth arbenigol.”

## Meddwl am Strategaeth i'r Ysgol Gyfan

Yn yr NSPCC arddelwn y syniad mai mentrau gwrth-fwlio sy'n ffurfio rhan o strategaeth ysgol gyfan yw'r rhai mwyaf effeithiol.

Credwn fod y ffactorau canlynol yn allweddol i ddatblygiad strategaeth ysgol-gyfan effeithiol i fynd i'r afael â bwlio:

- Cynnwys holl aelodau cymuned yr ysgol – gan gynnwys athrawon, staff ategol, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae creu a chynnal ysgol ddiogel yn gyfrifoldeb ar bawb.
- Egluro'n union beth yw bwlio; llunio'ch diffiniad.
- Cael pawb i gytuno ei fod yn ymddygiad annerbyniol.
- Datblygu canllawiau clir ar gyfrifoldeb yr unigolyn – mae'n hollbwysig datblygu'r rhain gan gofio cyfraniad nid dim ond y sawl a fu'n bwlio neu a gafodd eu bwlio, ond hefyd, yn bwysig iawn, y sawl a wyliodd y bwlio.
- Sicrhau ymateb cyson i bob achos o fwlio.
- Nodi/monitro lleoedd/amserau a nodir gan ddisgyblion fel rhai anniogel.
- Cefnogi dioddefwyr bwlio a'r sawl sy'n bwlio a'u helpu i ddatblygu ymddygiad priodol.
- Sicrhau, unwaith y bydd gennych bolisi a gweithdrefnau yn eu lle, y cânt gyhoeddusrwydd da, ac y cânt eu hadolygu'n rheolaidd.

## Beth y gall yr NSPCC ei Gynnig i Ysgolion

Trwy'n Rhaglen Addysg rydym yn hyrwyddo sawl menter wahanol a all gael effaith uniongyrchol ar fwlio, boed trwy gynnig cefnogaeth i bobl ifanc (e.e. cefnogaeth cyfoedion a gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion), neu drwy edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd eu hangen i wneud ysgolion yn lleoedd mwy diogel i blant a phobl ifanc (e.e. cynghorau ysgol). Yn ogystal, mae Llinell Gymorth Diogelu Plant yr NSPCC yn cynnig cyfle i bobl ifanc a'u rhieni siarad â rhywun yn gyfrinachol ynghylch bwlio ar unrhyw adeg yn rhad ac am ddim ar 0800 056 0566.

Ar ben hynny gallwn gynnig:

- Cyngor a chefnogaeth i ysgolion sydd eisiau mynd i'r afael â bwlio a materion a all godi yng nghyswllt ymddygiad gwahaniaethol, gan gynnwys plagio rhywiol neu hiliol, drwy'n Cynghorwyr Addysg. Gwybodaeth am arfer da drwy adroddiadau, cyhoeddiadau a chyfarwyddiadau.
- Cyfleoedd i ysgolion rannu syniadau a dysgu oddi wrth ei gilydd drwy'n gwefan addysgol. Mae'r wefan yn cynnwys cyfarwyddiadau a'r

newyddion diweddaraf ar wahanol agweddau'n gwaith. Gobeithiwn sefydlu fforwm trafod ar fwlio a materion cysylltiedig erbyn Ionawr 2000. Ceir manylion y wefan ysgolion ar wefan yr NSPCC ar www.nspcc.org.uk

## Am Ragor o Wybodaeth

Gallwch gysylltu â'ch Cynghorydd Addysg yn y cyfeiriad isod, neu ymweld â'n gwefan yn www.nspcc.org.uk am ragor o wybodaeth gyffredinol am ein gwaith gydag ysgolion.

**Manylion cysylltu â Chynghorydd Addysg NSPCC, Cymru:**
Jane Harries
Uned 1, Cowbridge Court, Heol Gwenfo, CAERDYDD CF5 5BS

Ffôn: 029 2056 3421
Ffacs: 029 2057 6965

e-bost: eharries@nspcc.org.uk

Gall y cyrff isod hefyd roi cyngor a gwybodaeth ar fwlio a materion cysylltiedig:

**Kidscape**
2 Grosvenor Gardens, Llundain, SW1W 0DH.
Ffôn: 020 7730 3300
Ffacs: 020 7730 7081
E-bost: contact@kidscape.org.uk
Gwefan: www.kidscape.org.uk

**Childline – Ffôn: 0800 1111**
Freepost 1111, Llundain, N1 0BR

**Advisory Centre for Education**
1B Aberdeen Studios, 22 Highbury Grove, Llundain, N5 2EA

**Scottish Council for Research in Education**
15 St John Street, Caeredin, EH8 8JR.
Ffôn: 0131 557 2944
Ffacs: 0131 556 9454
Ebost: scre@scre.ac.uk
Gwefan: www.scre.ac.uk

Diweddarwyd ddiwethaf: 14eg Rhagfyr 2000